# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 1 Chwefror 2024

Amser: 09.17 - 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13716

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Tracey Burke, Llywodraeth Cymru<br>Neil Hemington, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru |
| Archwilio Cymru: | Mathew Mortlock<br>Tim Buckle<br>Charles Rigby |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Lisa Hatcher (Dirprwy Glerc)<br>Steffan Lewis (Ysgrifenyddiaeth) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod o’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS a Natasha Asghar AS.

1.3 Roedd Altaf Hussain AS yn bresennol yn y cyfarfod, yn dirprwyo ar ran Natasha Asghar AS.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr, gan gytuno i aros am adroddiad gwerthuso’r Banc Datblygu a gofyn am gyngor pellach gan Archwilio Cymru pan ddaw’r adroddiad i law.

### 2.1 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad ynghylch Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru

## 3 Sesiwn Dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru - Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Tracey Burke - Cyfarwyddwr Cyffredinol - Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Emma Williams - Cyfarwyddwr - Tai ac Adfywio, John Howells - Cyfarwyddwr - Newid Hinsawdd, Cynllunio ac Ynni, a Neil Hemington - Pennaeth Cynllunio, fel rhan o'r ymchwiliad i ddiogelwch adeiladau yng Nghymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig

## 5 Diogelwch Adeiladau yng Nghymru - Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Adroddiad Drafft - Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

## 7 Papur briffio Archwilio Cymru ar ei adroddiad: Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunwyd i aros am ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad cyn penderfynu ar unrhyw gamau pellach.